# Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynllun Busnes 2023/24

professional standards authority

SG/2023/117

# Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynllun Busnes 2023/24

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 16 (1B) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

SG/2023/117

OGL

© Hawlfraint Awdurdod Safonau Proffesiynol 2023

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.professionalstandards.org.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn info@professionalstandards.org.uk

ISBN 978-1-5286-4298-9

E02935335   07/23

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 40%

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# 1. Cynllun Busnes 2023/24

## Safonau a Pholisi

1.1 Yn 2023/24 byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor mewn perthynas â diwygio rheoleiddio a gweithredu'r ymrwymiadau yn ein hadroddiad *Gofal Mwy Diogel i Bawb*. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI), datblygu strategaethau rheoleiddio gan lywodraethau'r DU, rheoleiddio ar gyfer risgiau newydd a gweithredu dull 'mannau diogel' sy'n gyson ag atebolrwydd unigol a'r ddyletswydd gonestrwydd.

1.2 Byddwn yn cefnogi unrhyw newidiadau angenrheidiol i brosesau'r Awdurdod sy'n sail i weithredu'r diwygiadau, yn cyhoeddi canllawiau ar weithredu diwygiadau ac yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio diwygiadau i wella rheoleiddio a chofrestru ymhellach.

1.3 Byddwn yn parhau i fonitro ac ymateb i ymchwiliadau ac ymgynghoriadau, ac i fonitro effaith polisi rheoleiddio.

### Cyfathrebu ac ymgysylltu

1.4 Byddwn yn gweithredu ein strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid diwygiedig a'n cynlluniau. Byddwn yn cynnal unrhyw gyfathrebiadau ac ymgysylltu sy'n deillio o'r ddiwygio rheoleiddiol a gwaith cysylltiedig.

1.5 Byddwn yn cynnal ein digwyddiadau blynyddol, ar-lein ac yn bersonol, gan gynnwys symposiwm, cynhadledd ymchwil a seminarau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Byddwn yn diweddaru ein gwefan sydd wedi bod yn gweithredu yn ei fformat presennol ers rhai blynyddoedd bellach i wneud y gorau o'i pherfformiad a gwella ein hygyrchedd i gynulleidfaoedd amrywiol.

1.6 Byddwn yn cynnal ein harolwg rhanddeiliaid blynyddol. Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer gweithgareddau gwella rheoleiddio a chofrestru.

## Rheoleiddio ac Achredu

1.7 Mae gwaith y Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio a Chraffu yn cwmpasu tair o swyddogaethau statudol yr Awdurdod: adrodd i Senedd y DU ar waith y rheolyddion (adolygiad perfformiad); adolygu penderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol rheolyddion (adran 29); a chynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch penodiadau rheolyddion i'w Cynghorau. Yn ogystal, mae'n ymdrin â phryderon a godwyd yn gyffredinol am reolyddion. Mae'r Gyfarwyddiaeth hon hefyd yn goruchwylio'r rhaglen Cofrestrau Achrededig.

### Adolygiad perfformiad

1.8 Bydd y tîm adolygiadau perfformiad yn parhau i adolygu pob un o'r 10 rheoleiddiwr ac adrodd i'r Senedd ar eu perfformiad.

1.9 Cwblhawyd gweithrediad ein dull newydd o adolygu perfformiad ar ddiwedd blwyddyn fusnes 2022/23 a byddwn yn gwerthuso ei lwyddiant yn 2023/24. Rydym hefyd yn adolygu ein hymagwedd at Safon Rheoleiddio Da EDI. Yn ystod 2023/24, byddwn yn

parhau â’r gwaith hwnnw ac yn datblygu ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid ymhellach i geisio adborth ar berfformiad y rheolyddion.

1.10 Bydd y tîm yn monitro’r newidiadau a fydd yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o waith y Llywodraeth ar ddiwygio rheoleiddio ac yn ystyried a oes angen diwygio ein prosesau.

## Adran 29

1.11 Mae’r tîm adran 29 yn adolygu penderfyniadau paneli addasrwydd i ymarfer y rheolyddion i ystyried a yw'r rhain yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd. Os yw'n ystyried eu bod yn annigonol yna gall yr Awdurdod gyfeirio'r achos i'r llys perthnasol.

1.12 Mae'r Awdurdod yn derbyn pob penderfyniad sydd o fewn ein hawdurdodaeth. Mae gennym ddull cymesur sy’n seiliedig ar risg o edrych ar benderfyniadau, ac mae ei effeithlonrwydd wedi’i gymeradwyo gan archwiliad mewnol o’n gwaith adran 29. Nid ydym yn adolygu achosion lle mae'r unigolyn cofrestredig wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr neu rai eraill (er enghraifft, ataliad pellach) lle yn ein barn ni mae'r penderfyniad yn debygol o fod yn ddigon i ddiogelu'r cyhoedd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod tua 30% o achosion yn cael eu cau heb adolygiad.

1.13 Ar gyfer y gweddill, rydym yn cynnal adolygiad cychwynnol byr i sefydlu a oes pryderon ynghylch y penderfyniad. Os oes, rydym yn ceisio gwybodaeth bellach er mwyn i ni allu asesu a yw'r pryderon hynny'n awgrymu y gallai'r penderfyniad fod yn annigonol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynrychioli tua 100-120 o benderfyniadau bob blwyddyn ar draws yr holl reolyddion; tua 5% o'r llwyth achosion. Os bydd y pryderon yn parhau, yna rydym yn cynnal cyfarfod achos gyda chyngor gan gyfreithwyr allanol cyn i ni benderfynu a ydym am atgyfeirio’r achos. Mae dros 90% o’r achosion a ddygwn yn cael eu cadarnhau gan y llysoedd a’u setlo, gyda’r rheoleiddiwr perthnasol yn cytuno nad oedd y penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu’r cyhoedd. Rydym hefyd yn rhannu pwyntiau dysgu o'n hadolygiadau gyda'r rheolyddion i gefnogi gwelliannau mewn prosesau addasrwydd i ymarfer.

1.14 Yn 2022/23, derbyniodd yr Awdurdod 2,335 o achosion. Hon oedd yr ail flwyddyn o gynnydd yn dilyn gostyngiad sylweddol yn 2020/21 oherwydd y gostyngiad yn nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn ystod y pandemig. Rydym ar hyn o bryd yn gwneud gwaith i ddeall sut mae’r rheolyddion yn disgwyl i’w cynlluniau adfer effeithio ar faint ein gwaith yn 2023/24, ond ein disgwyliad cychwynnol yw y bydd nifer yr achosion oddeutu 2,500. Bydd ein hadnoddau presennol yn gallu darparu ar gyfer y nifer disgwyliedig o achosion.

1.15 Bydd y tîm hefyd yn cefnogi cydweithwyr i asesu cynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio rheoleiddio a’u heffaith.

1.16 Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda’r rheolyddion i gael gwybodaeth am sut mae ein prosesau’n effeithio ar unigolion â nodweddion gwarchodedig gwahanol ac a all hyn ddarparu dysgu ar gyfer ein prosesau a’n penderfyniadau ein hunain. Byddwn yn parhau â’r gwaith hwn yn 2023/24.

## Penodiadau i gyrff llywodraethu'r rheolyddion

1.17 Adolygodd yr Awdurdod 15 o brosesau penodi yn 2022/23. Disgwyliwn i’r nifer hwnnw fod yn debyg yn 2023/24.

1.18 Byddwn yn adolygu ein prosesau a'n canllawiau ar gyfer penodiadau fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu EDI.

### Pryderon

1.19 Mae'r Awdurdod yn parhau i dderbyn pryderon am y rheolyddion. Yn 2022/23 roedd 355, a oedd yn cynrychioli nifer tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Nid oes tuedd amlwg yn y nifer a dderbyniwn, ond nid oes gennym unrhyw reswm i gredu bod angen unrhyw newid yn yr adnoddau a neilltuir ar gyfer y gwaith hwn.

### Cofrestrau achrededig (AR)

1.20 Yn ystod y flwyddyn byddwn yn parhau i asesu ceisiadau newydd a cheisiadau i adnewyddu, gan gynnwys monitro yn ystod y flwyddyn ac unrhyw adolygiadau targedig. Byddwn yn cyflwyno Safon EDI newydd o fis Mehefin 2023. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r GIG a'r Llywodraeth i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cofrestrau Achrededig ac alinio â meysydd lle mae angen y gweithlu.

1.21 Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i archwilio goblygiadau'r adolygiad Annibynnol o'r Gyfundrefn Datgelu a Gwahardd ar drefniadau diogelu ar gyfer y Cofrestrau Achrededig a rheolyddion. Mae hyn yn dilyn ein cynllun peilot Cofrestrau Achrededig llwyddiannus o wiriadau lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer sampl o unigolion cofrestredig hunangyflogedig yn 2022/23, ac ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch a ddylid defnyddio'r rhain yn ehangach yn y dyfodol.

1.22 Nid yw'r gwaith Cofrestrau Achrededig yn cael ei ariannu gan ffioedd gan y rheolyddion. Fe'i hariennir yn llawn gan y cofrestrau. Mae cynllun busnes y Cofrestrau Achrededig ar gyfer 2023/24 i'w weld yn Atodiad A.

## Gwasanaethau Corfforaethol

1.23 Mae'r tîm yn darparu'r gwasanaethau canlynol: cyllid, adnoddau dynol (AD), technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), diogelwch gwybodaeth, llywodraethu, rheoli risg, archwilio, cyfleusterau, iechyd a diogelwch, parhad busnes, caffael a gweinyddu swyddfa.

1.24 Mae'r tîm yn gweithio i sicrhau bod yr Awdurdod yn sefydliad annibynnol, effeithiol, yn darparu gwerth am arian. Mae'n cefnogi'r Bwrdd a'r weithrediaeth i gyflawni swyddogaeth a gweithrediad esmwyth y sefydliad.

### Gwaith ar gyfer 2023/24

1.25 Yn y flwyddyn i ddod, bydd y tîm yn parhau i gefnogi gweithrediad cyffredinol yr Awdurdod tra'n sefydlu'r gwelliannau a'r arbedion effeithlonrwydd a gyflwynwyd yn 2022/23.

1.26 Bydd prosiectau ar gyfer 2023/24 yn cynnwys gweithredu system AD hunanwasanaeth cwmwl, adolygu cynllun ein gwefan, a rheoli cyflwyniad cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig newydd.

1.27 Mae AD a Llywodraethu yn parhau i ddarparu cymorth o ddydd i ddydd, gan oruchwylio'r holl recriwtio ac ymateb i'r holl faterion staffio ac AD. Maent hefyd wedi datblygu Strategaeth Pobl tair blynedd newydd i'w rhoi ar waith o ddechrau 2023/24.

1.28 Bydd cyllid yn parhau i ddarparu rhediad effeithiol o'r swyddogaeth gyllid o ddydd i ddydd, gan oruchwylio'r holl drafodion ariannol, caffael a chyflogres. Byddant yn datblygu Strategaeth Gyllid tair blynedd newydd gan adeiladu ar y gwelliannau i

adroddiadau ariannol a rheoli cyllidebau a gyflawnwyd yn 2022/23. Bydd hyn yn cynnwys parhau â'u harolygiaeth ragweithiol o'r holl gaffael.

1.29 Bydd TGCh yn parhau i ddarparu cymorth effeithiol o ddydd i ddydd wrth ddesg gymorth, rheoli contractau a seiberddiogelwch. Eu ffocws fydd gwreiddio'r strategaeth TG cwmwl newydd a gyflwynwyd yn 2022/23.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

1.30 Yn 2022/23, parhaodd yr Awdurdod â'i waith ar ei ymagwedd at EDI, gan gyflwyno ei gynllun gweithredu a chynnal hyfforddiant sylweddol i'w staff gyda chymorth ei gynghorydd EDI. Penodwyd Rheolwr EDI newydd gennym ar ddiwedd 2022/23 sy’n goruchwylio datblygiad ein cynllun gweithredu ar gyfer 2023/24.

1.31 Byddwn yn cyhoeddi canllawiau i’r rheolyddion yn 2023/24 ar ein disgwyliadau mewn perthynas â’r safon EDI ar gyfer adolygiadau perfformiad. Byddwn hefyd yn gweithredu safon debyg ar gyfer Cofrestrau Achrededig o fis Mehefin 2023.

## 2. Cyllid ac Adnoddau

2.1 Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel corff annibynnol gyda dyletswyddau statudol. Mae'n atebol i'r Senedd.

2.2 Mae'r Awdurdod wedi ei ariannu trwy:

- Ffioedd a gesglir gan y cyrff rheoleiddiol mae'n eu goruchwylio sy'n ariannu costau ei swyddogaethau rheoleiddiol a safonau
- Incwm yn deillio o achredu cofrestrau gwirfoddol.
- Incwm am gyngor ac ymchwiliadau sydd wedi comisiynu'n benodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac/neu'r Gweinyddiaethau Datganoledig.
- Incwm o weithgareddau eraill, er enghraifft, ffioedd o ddarparu cyngor a gwasanaethau cynghori i lywodraethau, cyrff rheoleiddio a sefydliadau tebyg eraill yn y Deyrnas Unedig a thramor.

2.3 Dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori gyda chyrff rheoleiddio yn eu cynghori o'i ofyniad cyllideb arfaethedig. Gellir gweld yr ymgynghoriad hwn yn yr atodiad i'r ddogfen hon.

### Gwerth am Arian

2.4 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwerth am arian. Ei nod yw gwneud hynny mewn tair ffordd: adolygu gwariant yn ofalus a rheoli costau; gwerthuso prosesau craidd yn systematig i nodi gwelliannau mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd; a gwneud y mwyaf o fanteision ein gwaith er budd gwell rheoleiddio a chofrestru. Rydym yn parhau i fonitro gwireddu buddion ar draws ein gwaith ac i ddyrannu adnoddau i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

2.5 Yn 2020/21 a 2021/22 mae'r Awdurdod wedi cwblhau gwaith i adolygu ei brosesau craidd yn ymwneud â'n swyddogaeth Cofrestrau Achrededig ac adolygiadau perfformiad. Mae swyddogaeth y Cofrestrau Achrededig bellach yn seiliedig ar fodel hunanariannu ac yn cynnwys cyfres ddiwygiedig o safonau a phrosesau gweithredol, gan wella effeithiolrwydd y rhaglen ymhellach. Daeth ein gwaith o newid y prosesau adolygu perfformiad i ben yn gynnar yn 2022 ac mae wedi darparu dull mwy cymesur sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi gwelliannau yn y rheolyddion yn fwy effeithiol.

2.6 Mae cynllun strategol yr Awdurdod ar gyfer 2023-26 yn nodi'n glir ein cynlluniau i wneud y mwyaf o fanteision ein gwaith, gyda ffocws penodol ar gyfrannu at welliannau mewn rheoleiddio trwy ymchwil, cyngor polisi, a rhannu arfer da.

2.7 Yn 2022/23, cynhaliom adolygiad o'n trefniadau pensiwn i ystyried a oedd dewis amgen mwy addas, cost-effeithlon i gynllun buddion diffiniedig presennol y GIG. O ganlyniad, gwnaethom y penderfyniad i gau Cynllun y GIG i ddechreuwyr newydd o fis Ebrill 2023 a chyflwyno cynllun Cyfraniadau Diffiniedig yn ei le. Disgwyliwn weld arbedion hirdymor o'r newid mawr hwn er na fydd y rhain yn cael eu gwireddu ar unwaith.

2.8 Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithwir ar gyfer ein Pwyllgorau Craffu ac Enwebiadau, a gweithdai Bwrdd, sy'n sicrhau arbedion mewn costau teithio a chynhaliaeth i aelodau'r Bwrdd.

2.9 Bydd adleoli swyddfa'r Awdurdod i eiddo newydd ym mis Mawrth 2023 yn sicrhau arbedion sylweddol. Er bod costau llety yn swyddfa Victoria yn gymharol isel, byddwn

yn lleihau ein gwariant blynyddol yn y maes hwn tua £100,000 drwy leihau'n sylweddol y gofod sydd ei angen arnom o ganlyniad i'n patrymau gwaith hybrid peilot. Drwy gydol y prosiect adleoli gwnaethom gadw costau mor isel â phosibl drwy sicrhau cymorth cyfreithiol am ddim gan Hyb Cyfraith Eiddo Adran Gyfreithiol y Llywodraeth, trwy garedigrwydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Byddwn yn buddsoddi'r arbedion hyn i wella ein swyddogaethau ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid yn 2023/24 a thu hwnt.

2.10 Lleihawyd ein trothwy caffael yn sylweddol yn 2022/23, ac o ganlyniad mae'n ofynnol bellach inni geisio tri dyfynbris ar gyfer unrhyw wariant dros £3,000. Mae'r dull mwy cadarn hwn yn sicrhau ein bod yn sicrhau prisiau cystadleuol drwy gymharu'r farchnad yn fwy rheolaidd. Drwy gydol y flwyddyn 2022/23 fe wnaethom adolygu ein dull o adnewyddu contractau hirdymor gyda chyflenwyr. O ganlyniad, cynhaliom sawl ymarfer caffael a dyfarnwyd contractau cyflenwyr newydd mewn amrywiol feysydd. Rydym hefyd yn rheoli'r contractau hynny'n fwy gweithredol, gan sicrhau bod cyflenwyr yn cael eu dwyn i gyfrif ar bob lefel o ddarpariaeth gwasanaeth.

2.11 Drwy roi ein Map Ffordd Trawsnewid Cwmwl TG ar waith yn 2022/23, byddwn yn lleihau gwariant cyfalaf blynyddol o £50K o gymharu â blynyddoedd blaenorol ac yn sicrhau arbedion hirdymor mewn costau TG. Yn ogystal, rydym wedi sicrhau gwasanaethau cymorth masnachol/caffael gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ddim.

2.12 Rydym wedi rheoli costau staff drwy beidio â chael unrhyw godiad cyflog i staff yn 2021 a dim ond cynnydd o 1% yn 2022. I gydnabod y pwysau presennol ar gostau byw, gwnaethom weithredu codiad cyflog o 4% ar gyfer staff ac aelodau'r Bwrdd ym mis Ebrill 2023.

2.13 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r pwysau ariannol a wynebir gan nifer o unigolion cofrestredig sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Cost gyfartalog gwaith rheoleiddio a gosod safonau'r Awdurdod fesul unigolyn cofrestredig yn 2022/23 oedd £2.65. Mae hyn yn cymharu â £2.72 yn 2021/22, £2.68 yn 2020/21 a £2.70 yn 2019/20, fel y dangosir isod. Y gost gyfartalog fesul unigolyn cofrestredig yn 2023/24 fydd £2.59.



### Rhagdybiaethau

2.14 Mae’r tybiaethau ar gyfer busnes fel arfer yn 2023/24 y gwnaethom adeiladu ein cyllideb arnynt fel a ganlyn:

- Cyfradd swyddi gwag parhaus o 5%.
- Cynnydd cyflog o 4% i staff ac aelodau’r Bwrdd o fis Ebrill 2023.
- Yn seiliedig ar y costau adennill cyfartalog dros y tair blynedd diwethaf, bydd yr Awdurdod yn adennill 25% o gyfanswm ei wariant ar gyngor cyfreithiol yn ymwneud ag achosion Adran 29.
- Y bydd cyfanswm cost camau cyfreithiol yn aros ar yr un lefel ag mewn blynyddoedd blaenorol
- Bod niferoedd staffio yn cynyddu o un o gymharu â dechrau 2022/23
- Na chyflwynir unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n addasu dyletswyddau'r Awdurdod i'r fath raddau fel y bydd yn effeithio ar ein costau, yn ystod y flwyddyn
- Y bydd nifer yr achosion addasrwydd i ymarfer oddeutu 2,500.
- Cynnydd chwyddiannol o 4% ar gyfer costau nad ydynt yn gostau staff.
- Bydd y DHSC yn bwrw ymlaen â diwygio rheoleiddiol fel y cynlluniwyd.

2.15 O gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2022/23, mae costau wedi cynyddu mewn perthynas â: staffio (cynnydd cyflog a Phennaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid ychwanegol); costau archwilio uwch; a chwyddiant ar rai costau nad ydynt yn gostau staff. Rydym wedi lleihau costau mewn perthynas â: rhent swyddfa; recriwtio; teithio staff; a chyhoeddiadau/cyfathrebu.

2.16 Y sefydliad staffio yn unol â’r gyllideb ar gyfer 2023/24 yw:

| Swyddi | 2023/24 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Prif weithredwr | 1 | 1 |
| Cyfarwyddwyr | 3 | 3 |
| Cyfarwyddwyr cynorthwyol | 1 | 2 |
| Penaethiaid swyddogaethau | 5 | 4 |
| Rheolwyr | 7 | 6 |
| Arbenigwyr technegol | 4 | 4 |
| Swyddogion a chynghorwyr | 17 | 17 |
| Gweinyddwyr | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **41** | **40** |

2.17 Mae’r 41 swydd yma yn gyfwerth â 39.5 o swyddi amser llawn.




2.18 Y cynnydd cyffredinol yn y ffioedd sy’n ofynnol gan y rheolyddion yn 2023/24 yw £177K (3.9%).

## Cyllidebau Dangosol

| **Rheoleiddio a safonau** | **2023/24 £'000** | **2022/23 £'000** |
|---|---|---|
| Gwariant gweithredu net (ac eithrio dibrisiant ar gyfer asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn ac amorteiddiad cronfa ddata) | 4,687 | 4,725 |
| | | |
| Gwariant cyfalaf | 50 | 50 |
| **Is-gyfanswm** | | **4,775** |
| Cronfa wrth gefn a ad-dalwyd | (100) | (216) |
| **Cyfanswm gofynion ariannu** | **4,637** | **4,559** |

**Dadansoddiad o'r gwariant**

| | **2023/24 £'000** | **2022/23 £'000** |
|---|---|---|
| ***Gwariant*** | | |
| Costau staff | 3,295 | 3,112 |
| Costau gweinyddol eraill | 1,540 | 1,724 |
| ***Incwm*** | | |
| Incwm gweithredol | (148) | (111) |
| | | |
| **Gwariant gweithredu net** | **4,687** | **4,725** |

| **Gwariant cyfalaf** | **2023/24 £'000** | **2022/23 £'000** |
|---|---|---|
| Technoleg gwybodaeth | 40 | 40 |
| Gosodiadau a ffitiadau | 10 | 10 |
| **Gwariant cyfalaf** | **50** | **50** |

**Costau gweinyddol**

| | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl aelodau | 102 | 95 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 461 | 582 |
| Eiddo a pheiriannau sefydlog | 515 | 602 |
| Hyfforddiant a recriwtio | 110 | 130 |
| Cyfathrebu a chynadleddau | 151 | 132 |
| Costau sefydliadol | 77 | 75 |
| Ffi archwiliad allanol | 29 | 29 |
| Costau eraill | 95 | 79 |
| Dibrisiant | 0 | 0 |
| **Cyfanswm costau gweinyddol** | **1,540** | **1,724** |

**Incwm Gweithredu**

| | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| Adfer costau Adran 29 | 143 | 99 |
| Incwm is-denantiaeth | 0 | 0 |
| Incwm gweithredu arall | 5 | 12 |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredol** | **148** | **111** |

**Cofrestrau achrededig**

| | 2023/24 Cyllideb £'000 | 2022/23 Cyllideb £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Model ffioedd blaenorol | 0 | 157 |
| Model ffioedd newydd | 583 | 429 |
| Incwm Arall | | |
| Cyfanswm | **583** | **586** |
| **Gwariant** | | |
| Costau tâl | 404 | 321 |
| Costau nad ydynt yn dâl | 197 | 220 |
| Cyfanswm | **601** | **541** |
| **Cyfanswm dros ben/(diffyg)** | **(18)** | **45** |
| **Cyllid DHSC** | | **-** |
| **Gwarged/(diffyg) net** | **(18)** | **45** |

# 3. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| Maes Gwaith | Dangosyddion perfformiad allweddol |
| --- | --- |
| Cyllid | • I dalu anfonebau diamheuol:100% mewn 10 diwrnod<br>• Amrywiad incwm / gwariant a gyllidwyd yn llai na 5% (ac eithrio Adran 29 sydd tu hwnt i'n rheolaeth)<br>• Cyfradd gwall taliad yn llai na 3%<br>• Cyfradd archebion prynu hwyr yn llai na 10% |
| AD | • Salwch staff yn ddim mwy na 2%<br>• Trosiant staff i fod yn llai na 15%<br>• Proses recriwtio cyfartalog yn llai nag 12 wythnos |
| TGCh | • Ymateb i 85% o docynnau desg gymorth o fewn 4 awr<br>• Datrys 85% o anghydfodau o fewn diwrnod<br>• Diffyg argaeledd system yn ystod oriau busnes yn ddim mwy na 10 awr mewn unrhyw un mis |
| Diogelwch gwybodaeth | Dim achosion wedi eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |
| Ceisiadau gwybodaeth (FOI / SAR / EIR) | • 100% Delio â phob Cais Gwrthrych am Wybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol<br>• 100% Delio â cheisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol |
| Archwiliad – allanol | Derbyn barn ddiamod ar gyfer cyfrifon |
| Cwynion | • Cydnabod 100% o gwynion ymhen pum niwrnod<br>• Cwblhau ymateb i bob cwyn o fewn 28 niwrnod |
| Penderfyniadau adran 29 | Ystyried 100% o benderfyniadau perthnasol o fewn y dyddiad cau statudol |
| Adolygiadau Perfformiad | 100% o adolygiadau perfformiad wedi'u cyhoeddi o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod adolygu |

| | |
|---|---|
| Pryderon y cyhoedd am Gyrff Rheoleiddio | Cydnabod 100% o bryderon o fewn pum niwrnod gwaith |
| Cofrestrau Achrededig | • 90% o gofrestrau’n cael asesiad llawn o fewn tair blynedd i asesiad blaenorol.<br>• 90% o benderfyniadau ar y gwiriad blynyddol wedi eu gwneud o fewn blwyddyn i'r asesiad blaenorol.<br>• 90% o asesiadau llawn wedi eu cynnal o fewn blwyddyn i gyhoeddi Amod.<br>• 95% o adolygiadau targedig yn cael eu cwblhau o fewn tri mis i'r dyddiad cychwyn |

# Atodiad A

## Cofrestrau Achrededig Cynllun Busnes 2023/24

### Cyflwyniad
Mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig yn darparu trosolwg ar gyfer rolau iechyd a gofal nad yw'n ofynnol iddynt gael eu cofrestru yn ôl y gyfraith.

Ein cenhadaeth yw helpu cadw pobl yn ddiogel pan fyddant yn cael cymorth gan ymarferwyr iechyd a gofal heb eu rheoleiddio. Gwnawn hyn trwy ddyfarnu ein Marc Ansawdd i gofrestrau sy'n bodloni ein safonau yn unig, fel y gall unrhyw un ddewis ymarferwr yn hyderus.

Mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig yn cael ei rhedeg gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'n pwerau i achredu cofrestrau wedi'i nodi yn Neddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Proffesiynau Gofal Iechyd 2002[1].

Mae'r ddogfen hon yn sefydlu'r nodau allweddol ar gyfer y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn 2023/24, a sut y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau.

professional™ standards authority
accredited register

## Ein cynlluniau ar gyfer 2023/24

2023/24 fydd yr ail flwyddyn lawn o weithredu'r dull asesu diwygiedig a'r model ffioedd a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2021, yn dilyn adolygiad strategol[2] o'r rhaglen.

Nododd yr adolygiad strategol hefyd rai amcanion strategol tymor hwy. Mae'r rhain yn sail i'n cynllun busnes ar gyfer 2023/24, sef:

Amcan Un: Cymhwyso'r dull asesu symlach a'r 'prawf lles y cyhoedd' i'r Cofrestrau Achrededig.

Amcan Dau: Sicrhau bod Cofrestrau Achrededig yn cael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol priodol ar gyfer unigolion cofrestredig hunangyflogedig.

Amcan Tri: Codi cydnabyddiaeth a defnydd o Gofrestrau Achrededig.

Mae ein prosesau newydd yn cynnwys asesiad llawn yn erbyn ein Safonau unwaith bob tair blynedd ar gyfer y rhan fwyaf o Gofrestri, gyda gwiriad blynyddol yn y blynyddoedd rhwng hynny. Yn 2022/23, fe wnaethom ddechrau asesu Cofrestrau Achrededig cyfredol yn erbyn y prawf lles y cyhoedd 'Safon 1' newydd, sy'n ein galluogi i ystyried a oedd buddion y gweithgareddau a gynigir gan unigolion cofrestredig yn drech na'r risgiau.

### Amcan Un: Cymhwyso'r dull asesu symlach a'r 'prawf lles y cyhoedd'
Disgwyliwn gwblhau deuddeg asesiad adnewyddu llawn o Gofrestrau Achrededig yn 2023/24. Mae hyn yn gynnydd o 2022/23, pan oeddem hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu prosesau mewnol i gefnogi prosesau newydd.

---
1 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/17/contents
2 Adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad strategol: https://www.professionalstandards.org.uk/publications/detail/the-future-shape-of-the-accredited-registers-programme---consultation-report

Bydd asesiadau adnewyddu llawn yn cynnwys archwiliad o'u cofrestr gyhoeddedig a sampl o gwynion a dderbyniwyd. Byddwn hefyd yn adolygu gwybodaeth a dderbyniwyd drwy ein gwahoddiad ‘Rhannu Eich Profiad’. Byddwn yn gwirio a yw ein gofynion sylfaenol[3] yn erbyn yr holl Safonau wedi'u bodloni. Gwneir penderfyniadau gan Banel mewnol, a all gyhoeddi Argymhellion ar gyfer arfer da neu Amodau os oes meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn bodloni ein Safonau.

Bydd pob Cofrestr Achrededig nad oes ganddi asesiad llawn yn 2023/24 yn cael gwiriad blynyddol yn lle hynny, i weld a fu unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eu perfformiad yn erbyn ein Safonau.

Ym mis Mehefin 2023, byddwn yn cyflwyno ein Safon newydd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI). Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Hydref 2022 i gasglu barn ar sut y dylem asesu'r Cofrestrau yn y maes hwn. Byddwn yn cyflwyno’r Safon EDI i bob asesiad o fis Hydref 2023, ac yn gweithio gyda Chofrestrau Achrededig i nodi cyfleoedd i gydweithio ar faterion sy’n ymwneud ag EDI ac i rannu arfer gorau.
Yn 2022/23, fe wnaethom gyhoeddi achrediad dwy Gofrestr newydd: Cofrestr Lles Seicolegol Ehangach Cymdeithas Seicolegol Prydain, a Chymdeithas Dadansoddi Ymddygiad y DU. Rydym yn parhau i dderbyn rhagor o geisiadau newydd am achrediad gan sefydliadau sy'n cofrestru amrywiaeth o rolau, y mae rhai ohonynt yn cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth y GIG. Gobeithiwn gyhoeddi rhagor o Gofrestrau Achrededig newydd yn 2023/24.

### Amcan Dau: Sicrhau bod Cofrestrau Achrededig yn cael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol priodol ar gyfer unigolion cofrestredig hunangyflogedig

Ym mis Mehefin 2022, gwnaethom gwblhau peilot o wiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer unigolion cofrestredig hunangyflogedig, gyda’r Gymdeithas Seicotherapyddion Plant. Roedd hyn yn dangos nad oedd bod yn Gofrestr, yn hytrach na chyflogwr uniongyrchol, yn rhwystr ynddo'i hun i Gofrestrau Achrededig gael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol uwch.

Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom ymgynghori ynghylch a ddylem ymestyn y dull hwn yn y dyfodol. Yn 2023/24, byddwn yn adolygu canfyddiadau’r ymgynghoriad hwn ac yn ystyried a ddylid diwygio ein Safonau i gael gofyniad clir i Gofrestrau Achrededig gael mynediad at lefelau priodol o wiriadau cofnodion troseddol manylach.

Byddwn hefyd yn ystyried goblygiadau Adolygiad Annibynnol y Llywodraeth o’r Gyfundrefn Datgelu a Gwahardd cyn i ni wneud penderfyniad. Gallwch ddarllen mwy am ein gwaith i gryfhau diogelu ar ein tudalen we.[4]

### Amcan Tri: Codi cydnabyddiaeth a defnydd o Gofrestrau Achrededig.

Er mwyn bod yn effeithiol wrth amddiffyn cleifion a chodi safonau mae'n allweddol bod y cyhoedd a chyflogwyr yn cydnabod, yn defnyddio ac yn ymwybodol o Gofrestrau Achrededig. Mae angen iddo gael ei ddefnyddio hefyd gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch sut y caiff gofal ei ddarparu i wneud yn siŵr bod lefelau priodol o sicrwydd ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal o rolau heb eu rheoleiddio.

Byddwn yn parhau â gwaith a ddechreuwyd gydag amrywiaeth o gyrff yn 2023/24 i alinio’r rhaglen â’r meysydd sydd â’r angen mwyaf. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda Gweithwyr

[3] https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accredited-registers/standards-for-accredited-registers/accredited-registers-evidence-framework-for-standards.pdf?sfvrsn=55f4920_6
[4] https://www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/accredited-registers/accredited-registers-safeguarding-pilot

Proffesiynol y GIG, Llywodraeth y DU, y rheolyddion systemau a chyrff y GIG ledled y DU.

Byddwn yn gweithio gyda'n Cofrestrau presennol i annog cydweithredu ar feysydd o risgiau trawsbynciol, ac i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r amrywiaeth o unigolion cofrestredig a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn deall yn well y rhwystrau i gofrestru a chael mynediad at ofal. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwn am risgiau rolau drwy'r 'prawf budd y cyhoedd' i lywio ein dealltwriaeth o'r proffil risg cyffredinol ar gyfer rolau a reoleiddir. 0

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth ynghylch cynigion i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer ymarferwyr cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol yn Lloegr.

Byddwn yn parhau i gefnogi darpar ymgeiswyr ac yn disgwyl derbyn rhagor o geisiadau newydd am achrediad yn 2023/24. Bydd annog twf y rhaglen yn galluogi'r cyhoedd a chyflogwyr i ddewis o gronfa fwy o ymarferwyr sy'n dwyn ein Marc Ansawdd, sy'n golygu eu bod wedi dangos eu diogelwch a'u cymhwysedd.

### *Sut y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau yn 2023/24*

Bydd cynnal cynaliadwyedd ariannol, ar ôl ennill statws hunan-ariannu yn dilyn cyflwyno model ffioedd newydd ym mis Gorffennaf 2021, yn parhau i fod yn allweddol. Rydym yn ymwybodol o'r angen i gyfyngu ar gostau, ar adeg pan fo costau byw yn cynyddu; tra'n parhau i fuddsoddi yn natblygiad achredu.

Bydd y model ffioedd ar gyfer 2023/24 yn cynnwys dwy elfen: isafswm ffi sylfaenol, a ffi fesul unigolyn cofrestredig. Ar gyfer 2023/24 y ffi sylfaenol fydd £10,920 a'r ffi fesul unigolyn cofrestredig fydd £5.93. Yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y rheolyddion statudol, cafwyd cynnydd o tua 4% ar gyfer y ddwy elfen.

Fe wnaethom ehangu'r Tîm Achredu yn 2022/23 drwy rôl Swyddog Achredu ychwanegol i gefnogi twf parhaus y rhaglen a cheisiadau newydd. Byddwn yn cynnal y lefelau adnoddau hyn ar gyfer 2023/24. Byddwn yn cynnal adolygiad mwy sylfaenol o'r gofynion adnoddau, a'r model ffioedd, ar gyfer 2024/25. Yn y cyfamser, bydd creu rôl newydd i gefnogi Achredu a'r sefydliad ehangach (Pennaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid) yn ein helpu i gyflawni ein nodau yn 2023/24.

Mae unrhyw warged ar ddiwedd y flwyddyn ariannol o incwm ychwanegol, megis o geisiadau newydd, yn cael ei neilltuo yng nghronfeydd anghyfyngedig yr Awdurdod. Gall unrhyw gronfeydd ychwanegol gael eu hail-fuddsoddi yn y rhaglen, er enghraifft trwy adnoddau ychwanegol neu drwy fuddsoddi mewn meysydd penodol megis cyfathrebu neu ymchwil.

### *Incwm a gwariant*

Mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig ar wahân yn ariannol i weddill swyddogaethau rheoleiddio'r Awdurdod. Yr egwyddor bwysicaf yw bod yn rhaid i'r holl gostau a dynnir gan y rhaglen gael eu talu gan y ffioedd a gesglir. Mae'r tabl isod yn nodi ein cyllideb o 2021/22, a rhagolygon ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol. Mae'r tybiaethau sy'n sail i incwm gweithredu yn y dyfodol yn seiliedig ar nifer y Cofrestrau Achrededig cyfredol, a'r ceisiadau newydd a dderbyniwyd.

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau gweithredu | 441 | 462 | 519 | 664 | I'w Benderfynu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm gweithredol | (258)5 | (519) | (578) | (671) | 750,000 |
| Costau/(incwm) gweithredu net | 183 | (57) | (59) | (7) | I'w Benderfynu |

### *Sut fyddwn ni'n mesur ein perfformiad*

Byddwn yn monitro perfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) isod. Bydd y Dangosyddion yn cael eu hadrodd i Fwrdd yr Awdurdod yn ei gyfarfodydd rheolaidd trwy Adroddiad y Prif Weithredwr.

90% o Gofrestrau'n cael asesiad llawn o fewn tair blynedd i'r asesiad blaenorol.

90% o benderfyniadau am y gwiriad blynyddol o fewn blwyddyn i'r asesiad blaenorol.

95% o'r Amodau'n cael eu hadolygu o fewn dau fis i'r dyddiad yr oedden nhw i fod.

95% o adolygiadau targedig yn cael eu cwblhau o fewn tri mis i'r dyddiad cychwyn.

90% o benderfyniadau wedi eu gwneud ar geisiadau newydd ar gyfer achrediad o fewn dau fis i dderbyn yr holl wybodaeth.

[5] Yn 2020/21, derbyniodd y rhaglen incwm ychwanegol drwy gymhorthdal o £162,000 gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyflwynwyd model ffioedd diwygiedig ym mis Gorffennaf 2021 a alluogodd y rhaglen i ddod yn gwbl hunangyllidol o 2021/22 ymlaen.

ISBN 978-1-5286-4298-9
E02935335

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
16-18 New Bridge St
Llundain
EC4V 6AG

Ffôn: **020 7389 8030**
Ffacs: **020 7389 8040**
E-bost: **info@professionalstandards.org.uk**
Gwefan: **www.professionalstandards.org.uk**

© Yr Awdurdod Safonau
Proffesiynol ar gyfer Iechyd a
Gofal Cymdeithasol, 2023

professional
standards
authority